GIG

*Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol*

# Defnyddio hormon twf dynol (somatropin) ar gyfer oedolion sydd â diffyg hormon twf

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sydd â diffyg hormon twf, a'r cyhoedd

Awst 2003

**Defnyddio hormon twf dynol (somatropin) ar gyfer oedolion sydd â diffyg hormon twf**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sydd â diffyg hormon twf, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2003
**Dyddiad adolygiad:** Mehefin 2006

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0268. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0267. Mae arfarniad technegol NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno *Guidance on the use of human growth hormone (somatropin) in adults with growth hormone deficiency* ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0265.

---


**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-359-4
Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Awst 2003
Gosodwyd y testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain



Ⓗ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Awst 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw diffyg hormon twf? | 5 |
| Beth yw triniaeth hormon twf dynol? | 6 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell? | 6 |
| Beth y dylwn i ei wneud? | 9 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

## Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad ar gyfer y GIG a chleifion ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol. Gallai arweiniad NICE hefyd gwmpasu'r amgylchiadau pan ddylid defnyddio eitem arbennig.

I gynhyrchu'r arweiniad, mae NICE yn edrych ar pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio mewn perthynas â faint y mae'n ei gostio. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y caiff yr arweiniad ei gynhyrchu ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'r gofalwyr a gaiff eu heffeithio gan yr arweiniad.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar y defnydd o hormon twf dynol ailgyfunol (synthetig) (a elwir hefyd yn somatropin) ar gyfer diffyg hormon twf mewn oedolion a chynhyrchu arweiniad i helpu NICE yng Nghymru a Lloegr benderfynu pryd y dylai gael ei ddefnyddio.

# Beth yw diffyg hormon twf?

Yn y rhan fwyaf o bobl, caiff hormon twf ei gynhyrchu gan y chwarren bitẅidol, sydd wedi ei lleoli yng ngwaelod yr ymennydd. Gelwir yr hormon twf dynol sy'n digwydd yn naturiol yn somatotrophin hefyd. Mae'n helpu i reoli defnydd y corff o broteinau, carbohydradau a lipidau (braster a sylweddau tebyg i fraster). Mae hormonau twf hefyd yn chwarae rhan yn y broses dyfu mewn plant, gan ei fod yn effeithio ar dwf esgyrn.

Diffyg hormon twf yw'r term a defnyddir pan fydd y swm o hormon twf a gaiff ei gynhyrchu yn llawer is na'r arfer. Mewn oedolion, gall diffyg hormon twf ddigwydd o ganlyniad i niwed i'r chwarren bitẅidol neu i ran o'r ymennydd a elwir yn hypothalamws, sydd â chysylltiad agos iawn â'r chwarren bitẅidol. Gall niwed o'r fath gael ei achosi gan diwmor yn yr ardal neu gan driniaeth a gafodd y person ar gyfer tiwmor (llawdriniaeth neu radiotherapi). Gall diffyg hormon twf ddigwydd hefyd os cafwyd problem gyda'r cyflenwad gwaed i'r chwarren bitẅidol neu'r hypothalamws.

## Beth yw triniaeth hormon twf dynol?

Mae'n bosibl adnewyddu'r hormon twf sydd ar goll drwy gael pigiadau rheolaidd o hormon twf dynol. Edrychodd arfarniad NICE ar y fersiwn synthetig o hormon twf dynol (somatropin); cyfeirir at hwn o bryd i'w gilydd fel 'hormon twf ailgyfunol', sy'n golygu y caiff ei weithgynhyrchu drwy ddefnyddio technoleg DNA.

## Beth mae NICE wedi ei argymell?

Mae NICE wedi argymell mai dim ond ar gyfer oedolion sydd â diffyg hormon twf difrifol sy'n cael effaith ddifrifol ar ansawdd eu bywydau y dylai hormon twf dynol ailgyfunol gael ei ddefnyddio. I fod yn rhan o'r grŵp hwn, dywed NICE:

- y dylai ymateb hormon twf uchaf person fod yn llai na 9mU/litr yn y 'prawf goddefiad inswlin' ar gyfer diffyg hormon twf neu y ceir canlyniad isel tebyg mewn prawf dibynadwy arall, **ac**

- yr amherir ar ansawdd bywyd person oherwydd eu diffyg hormon twf (a gaiff ei farnu drwy ddefnyddio holiadur penodol a elwir yn 'Asesiad ansawdd bywyd diffyg hormon twf mewn oedolion' a gynlluniwyd i asesu ansawdd bywyd pobl sydd â diffyg hormon twf; dylai'r person gael sgôr o 11 o leiaf yn yr holiadur hwn), **a**

- dylai y person eisoes fod yn cael triniaeth amnewid hormonau ar gyfer unrhyw ddiffygion eraill yn ymwneud â hormonau pitẅidol os oes ganddo ef/ganddi hi un neu fwy o ddiffygion eraill.

Mae NICE hefyd wedi dweud y dylai ansawdd bywyd pobl sydd â hormon twf dynol ailgyfunol gael ei asesu eto 9 mis ar ôl dechrau'r driniaeth. Mae hyn er mwyn rhoi'r gorau i'r driniaeth os nad yw'n cael unrhyw effaith gadarnhaol, a dyma fydd yr achos os na fydd sgôr person ar yr holiadur ansawdd bywyd wedi gwella o leiaf 7 pwynt.

Gwnaeth NICE yr argymhelliad canlynol ar gyfer trin pobl sy'n datblygu diffyg hormon twf pan fyddant yn oedolion ifanc (cyn cyrraedd 25 mlwydd oed), ar ôl i'w twf arafu (sef pan fyddant yn tyfu llai na 2 cm mewn blwyddyn). Dylid gwirio lefel yr hormon twf. Os yw'r ymateb hormon twf uchaf yn llai na 9 mU/litr yn y prawf goddefiad inswlin ar gyfer diffyg hormon twf neu os oes canlyniad isel tebyg mewn prawf dibynadwy arall, yna dylai triniaeth hormon twf gael ei rhoi nes y cyflawnir yr hyn a elwir yn 'grynswth esgyrn uchaf oedolion' (bydd hyn yn digwydd pan fydd person yn cyrraedd tua 25 mlwydd oed). Ar ôl cyflawni crynswth esgyrn mwyaf oedolion dylid asesu a yw'n briodol parhau â'r driniaeth hormon twf dynol, yn unol â'r tri mesur a gaiff eu disgrifio ar ddechrau'r adran hon (a restrir fel pwyntiau bwled).

Dylai rhywun a oedd yn cael triniaeth y GIG gyda hormon twf dynol ailgyfunol cyn i arweiniad NICE gael ei gyhoeddi gael cynnig yr opsiwn o barhau â'r driniaeth nes y bydd ef neu hi a'r ymgynghorydd sy'n gyfrifol am ei driniaeth/thriniaeth o'r farn ei bod yn briodol rhoi'r gorau i'r driniaeth.

Mae NICE eisoes wedi cyhoeddi arweiniad ar ddefnyddio hormon twf dynol ar gyfer plant. Yn ei arweiniad ar ei ddefnyddio mewn oedolion, mae NICE wedi gwneud yr argymhelliad canlynol ar gyfer pobl sydd weddi bod yn cael triniaeth hormon twf ar gyfer diffyg hormon twf a ddaeth i'r amlwg pan oeddent yn blant. Pan fydd twf person wedi arafu (hynny yw, pan fydd yn tyfu llai na 2 cm y flwyddyn), dylai'r driniaeth hormon twf gael ei hatal am 2 neu 3 mis. Yna, dylai lefel hormon twf y person gael ei ailwirio. Os oes gan y person ymateb hormon twf uchaf o lai na 9 mU/litr yn y prawf goddefiad inswlin ar gyfer diffyg hormon twf neu ganlyniad isel tebyg mewn prawf dibynadwy arall, mae NICE yn argymell y dylid ailddechrau'r driniaeth hormon twf a'i pharhau nes y cyflawnir crynswth esgyrn mwyaf oedolion. Yr adeg hon, gellir asesu a yw'n briodol parhau â'r driniaeth hormon twf dynol, yn unol â'r tri mesur a gaiff eu disgrifio ar ddechrau'r adran hon (a restrir fel pwyntiau bwled).

Yn olaf, mae NICE wedi argymell y dylai camau cyntaf triniaeth hormon twf (dechrau’r driniaeth, addasu’r ddogn ar gyfer y person,ac asesu pa mor dda y mae’n gweithio) gael eu cynnal gan endocrinolegydd ymgynghorol sydd â diddordeb arbennig mewn anhwylderau hormon twf (mae endocrinolegydd ymgynghorol yn feddyg sydd wedi arbenigo mewn anhwylderau sy’n ymwneud â hormonau). Os yw’r hormon twf i gael ei ragnodi gan feddyg teulu’r unigolyn, ar ôl y camau cyntaf, yna dylai’r meddyg teulu a’r meddyg ymgynghorol ‘rannu’r’ gofal am yr unigolyn.

## Beth y dylwn i ei wneud?

Os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdanynt ddiffyg hormon twf, dylech drafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad ei adolygu ym mis Mehefin 2006.

# Gwybodaeth bellach

Mae gan wefan NICE (www.nice.org.uk) wybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn am hormon twf i bobl ar gyfer oedolion a gyhoeddwyd i'r GIG. Gellir gwneud cais am yr arweiniad drwy Linell Ymateb y GIG drwy ffonio 0870 1555 455 a dyfynnu N0265.

Cyhoeddodd y Sefydliad arweiniad ar ddefnyddio hormon twf dynol (somatropin) mewn plant sy'n dioddef o ddiffyg twf ym mis Mai 2002. Gellir cael copïau o wefan NICE, neu gallwch wneud cais am gopïau wedi eu hargraffu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG (dyfynnwch rif cyfeirnod N0095 ar gyfer yr arweiniad llawn; ac i gael fersiwn ar gyfer teuluoedd plant sy'n methu tyfu a'r cyhoedd, dyfynnwch rif cyfeirnod N0098 i gael fersiwn Cymraeg a Saesneg ac N0097 i gael fersiwn Saesneg).